# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
# SWYDD-DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **Adran** | Cyllid, Caffael ac Eiddo |
| **Swydd** | Swyddog Cynaliadwyedd (Secondiad Cyfnod Penodol) |
| **Rhif y Swydd** | TBC |
| **Gradd** | Graddfa 13 |
| **Lleoliad** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub |
| **Yn gyfrifol i'r** | Rheolwr Strategaeth Eiddo |

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

| **PRIF BWRPAS Y SWYDD** |
|---|
| Gweithio gyda Phennaethyr Adran Gyllid, Caffael ac Eiddo, Rheolwr Gwasanaeth Eiddo a chydweithwyr eraill, sefydliadau partner a grwpiau cymunedol ar ddatblygu, darparu a hyrwyddo Cynllun Strategol, strategaethau a gwaith cysylltiedig yr Awdurdod yn ymwneud â lleihau allyriadau carbon, bioamrywiaeth, lliniaru ac addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn ogystal â phrosiectau cynaliadwyedd eraill. |

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1) Datblygu, gweithredu a hyrwyddo ymatebion mewnol ac allanol y Gwasanaeth i leihau allyriadau carbon, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu ar ei gyfer, bioamrywiaeth, yn ogystal ag agweddau eraill ar gynaliadwyedd.
2) Rhoi cyngor proffesiynol a thechnegol ar reoli amgylcheddol ac arfer gorau i'r Gwasanaeth, cydweithwyr, partneriaid a'r gymuned ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud â dulliau cyfoes o ymdrin â newid yn yr hinsawdd, cynaliadwyedd a'r amgylchedd.
3) Cynghori aelodau a chydweithwyr, yn enwedig Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub a'r Uwch Dîm Rheoli ar ddatblygu a gweithredu eu dull o ymdrin â chynaliadwyedd a materion cysylltiedig.
4) Dyfeisio a gweithredu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac ymgysylltu, gan weithio gyda chydweithwyr cyfathrebiadau i roi cyhoeddusrwydd i nodau, mentrau a chyflawniadau'r Gwasanaeth drwy ystod eang o gyfryngau a sianelau cyfathrebu.

5) Cynllunio a chyflwyno amrywiaeth o gyflwyniadau, sesiynau hyfforddi a seminarau perthnasol i addysgu a hyrwyddo camau gweithredu ar draws y Gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach ill dau i fynd i'r afael ag argyfwng newid yn yr hinsawdd a materion cysylltiedig eraill.

6) Cynllunio a chyflawni ymchwil (gan gynnwys casglu a dadansoddi data0, adroddiadau a deunydd ysgrifenedig i gynorthwyo'r Gwasanaeth i ddeall materion newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd a'u hannog i gymryd camau i gryfhau perfformiad.

7) Cynllunio a chynnal prosiectau i gyflawni themâu strategol yr Awdurdod i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a materion amgylcheddol a chynaliadwyedd cysylltiedig, gan weithio gyda chydweithwyr a sefydliadau mewnol ac allanol fel y bo'n briodol.

8) Cynrychioli'r Gwasanaeth yn ol y gofyn mewn cyfarfodydd a phartneriaethau mewnol ac allanol i hyrwyddo gwaith y Gwasanaeth ar gynaliadwyedd a rheolaeth amgylcheddol gadarn.

9) Gweithio'n agos gyda Phennaeth yr Adran Gyllid, Caffael ac Eiddo i nodi rhaglenni ariannu perthnasol ac arwain ar geisiadau neu gyfrannu tuag atynt gyda dadansoddiadau a data lle y bo'n briodol.

10) Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu fframwaith monitro ac adrodd priodol ar gyfer newid yn yr hinsawdd a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd.

11) Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol, i gynyddu effeithiolrwydd eu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gan ystyried opsiynau i rannu adnoddau a sicrhau'r elw gorau posibl ar fuddsoddiad lle y bo'n bosibl..

12) Gweithredu yn unol â pholisi iechyd a diogelwch y Gwasanaeth i ofalu'n rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai eich gweithredoedd gwaith effeithio arnynt.

13) Ymgymryd ag unrhyw weithgareddau eraill a benderfynir gan y Gwasanaeth, Pennaeth Gwasanaethau neu'r rheolwyr llinell sy'n gymesur â lefel y swydd.

**GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy’n gymesurol â’r raddfa a’r swydd
- I gydweithredu’n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o’r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynlluniau Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni’r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio’n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

**GWERTHOEDD SEFYDLIADOL**

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgyblegig
- Yn hydwyth

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.

**Noder:**
Bydd y rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru a bydd angen i ddeilydd y swydd deithio'n annibynnol.

Mae'r rôl yn cynnwys delio ag oedolion/plant sy'n agored i niwed ac felly bydd ofynnol i ddeiliad y swydd gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r rôl yn cynnwys rhywfaint o waith penwythnos/ gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol.

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG